Number: WG26362

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

Ebrill 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-4734-9088-8

## Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Trosolwg o ymatebion

3. Dadansoddiad o ymatebion

4. Ymateb Llywodraeth Cymru a’r camau nesaf

5. Atodiad – Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a oedd yn gofyn am sylwadau ar God Ymarfer drafft ar gyfer darpariaethau rheoli rhywogaethau sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol ac, mewn rhai amgylchiadau, rhywogaethau a arferai fod yn gynhenid.

Diffinnir rhywogaeth estron oresgynnol (cyfwerth i 'rhywogaeth oresgynnol estron') fel organeb estron (planhigyn neu anifail) sy'n gallu lledaenu gan achosi effeithiau negyddol ar ein heconomi, amgylchedd neu iechyd.

Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn fygythiad amgylcheddol ac economaidd i Gymru ac amcangyfrifir ei fod yn costio £125 miliwn y flwyddyn i fynd i'r afael â nhw.

Wrth i fwy o bobl a nwyddau symud o gwmpas y byd ynghyd â newid yn yr hinsawdd, bydd mwy o fygythiad gan rywogaethau estron goresgynnol dros y degawdau nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd y mater hwn o ddifrif, ac yn cydnabod ei bod hi'n well atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymsefydlu yma yn y lle cyntaf na cheisio'u rheoli ar ôl iddynt fwrw gwreiddiau yma - sy'n aml yn ddrud iawn neu ddim yn opsiwn hyfyw mwyach. Nid yw rhywogaethau estron goresgynnol yn parchu ffiniau ac er mwyn mynd i'r afael â nhw mae Cymru'n cydweithio ag awdurdodau ledled Prydain; mae'r dull hwn wedi'i nodi yn Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain.

Yn 2015 cyflwynwyd **darpariaethau rheoli rhywogaethau** yn rhan o'r gyfraith i sicrhau bod modd cymryd camau gweithredu priodol i reoli rhywogaethau estron goresgynnol mewn amgylchiadau penodol.

Mae'r darpariaethau'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn i berchnogion gynnal gweithrediadau rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, neu ganiatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni'r gweithrediadau hyn, lle mae'r dull gwirfoddol wedi methu a'r perchennog wedi gwrthod gweithredu neu roi mynediad. Gellir defnyddio'r darpariaethau ar gyfer anifeiliaid cynhenid a arferai breswylio yma os yw'r anifeiliaid wedi'u rhyddhau'n anghyfreithlon heb gael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Ymarfer drafft ar gyfer darpariaethau rheoli rhywogaethau a oedd yn nodi sut y dylid defnyddio'r darpariaethau hyn yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn para o **12 Ionawr 2016 nes 5 Ebrill 2016.**

Dim ond i Gymru y mae'r cod hwn yn berthnasol. Bu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn ymgynghori ar god ymarfer ar wahân ar gyfer Lloegr.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn y cwestiynau canlynol:

1. Pa sylwadau sydd gennych ar y cod ymarfer drafft?

2. A yw'r cod ymarfer arfaethedig yn glir i'w ddeall ac yn ymarferol i'w weithredu?

3. Unrhyw sylwadau eraill

## 2. Trosolwg o ymatebion


Derbyniwyd 15 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd dosbarthiad cyfartal o ymatebion gan unigolion, y llywodraeth neu asiantaethau, y sector preifat a masnachol a buddiannau'r trydydd sector. Mae rhestr o'r ymatebwyr yn yr Atodiad.

**Tabl 1 – dadansoddiad o ymatebion yn ôl sector**

| Categori Ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Unigolyn | 3 |
| Llywodraeth / Sector Cyhoeddus | 3 |
| Sector preifat neu fasnachol | 3 |
| Trydydd Sector (cyrff masnach / undebau llafur) | 3 |
| Trydydd Sector (cadwraeth / lles anifeiliaid) | 3 |
| Cyfanswm | 15 |

O'r 15 ymateb a dderbyniwyd, roedd bron hanner ohonynt o sefydliadau neu fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Cafwyd 2 ymateb o sefydliadau sy'n cwmpasu'r DU gyfan, 2 o sefydliadau neu fusnesau yn Lloegr ac 1 o'r Alban. Ni wnaeth y tri unigolyn a ymatebodd nodi eu lleoliad.

**Tabl 2 – dadansoddiad o ymatebion yn ôl lleoliad**




Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion Cymraeg.

Ymatebodd 73% o'r ymatebwyr ar e-bost drwy flwch negeseuon e-bost Plant.Health@wales.gsi.gov.uk. Darparodd 27% o'r ymatebwyr wybodaeth drwy arolwg ar-lein.

Nid oedd unrhyw un o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r Cod. O'r 15 ymateb a dderbyniwyd roedd bron hanner yr ymatebwyr yn croesawu naill ai: bod y Cod Ymarfer yn cael ei ddatblygu neu; gynnwys y Cod Ymarfer drafft neu; y cyfle i roi sylwadau ar y Cod Ymarfer. Mae'r sylwadau isod yn enghreifftiau o ymatebwyr a groesawodd ddull neu gynnwys y Cod:

*"NFU Cymru believes that rapid response plans for early eradication or containment are far more cost effective than waiting until an Invasive Non-Native Species has become entrenched and difficult to control".*

*"We welcome the approach to include all relevant information on the scope and use of the powers in this Code by 'environmental bodies' in Wales as defined in the Act as the Welsh Minister (WG) and Natural Resources Wales (NRW)".* Cyfoeth Naturiol Cymru

*In general, we support the intention of the consultation to address the threat of Invasive Non-Native Species (INNS).* Ymddiriedolaethau Natur Cymru

## 3. Dadansoddiad o ymatebion

Cwestiwn 1 – Pa sylwadau sydd gennych ar y Cod Ymarfer drafft?

Rhoddodd 12 o ymatebwyr sylwadau uniongyrchol am hyn.

Gwnaeth un o'r 12 ymatebydd a roddodd sylwadau ddatganiad byr yn cefnogi'r Cod Ymarfer yn gyffredinol er mwyn gallu cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol yn haws. Rhoddodd yr 11 ymatebydd arall sylwadau manylach. Mae'r rhain wedi'u crynhoi a'u dosbarthu i gategorïau – gweler isod.

- Angen mwy o eglurder

Roedd rhan fwyaf o'r 11 ymatebydd a ddarparodd sylwadau yng nghwestiwn 1 yn awgrymu bod angen mwy o eglurder ar rai pwyntiau yn y Cod Ymarfer. Roedd y rhain yn cynnwys;

- y diffiniad o 'awdurdod amgylcheddol'
- graddfa ddaearyddol (rheolaeth leol yn erbyn rheolaeth genedlaethol)
- atgyfnerthu'r defnydd o arbenigwyr cydnabyddedig i reoli rhywogaethau estron goresgynnol
- egluro pwy sy'n talu pan fo tirfeddiannwr yn rhedeg safle sy'n cael ei ddefnyddio gan eraill a'i bod yn annhebygol mai'r perchennog sy'n gyfrifol am gyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol ond mai'r defnyddwyr sy'n gyfrifol
- cadarnhau natur wirfoddol trefniadau rheoli rhywogaethau
- mesurau bioddiogelwch

- cadarnhau nad yw trefniadau rheoli rhywogaethau'n drech na gofynion deddfwriaethol fel caniatadau, eithriadau a chytundebau
- y diffiniad o annedd yng nghyd-destun y darpariaethau
- dylid ystyried dulliau datrys problemau nad ydynt yn rhai marwol fel rhan o'r broses asesu
- a fyddai pwerau'n cael eu defnyddio ar y cyd â Gorchmynion Iechyd Anifeiliaid.

Awgrymodd rhai o'r 11 ymatebydd hynny y dylid cynnwys testun ychwanegol ynglŷn â'r canlynol:
- rhwymedigaethau cysylltiedig o dan Gyfarwyddebau UE eraill fel y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- sut mae'r gwaith hwn yn cysylltu â gweinyddiaethau ac asiantaethau eraill y DU fel ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron Prydain.

➢ Ymgysylltu cynnar

Pwysleisiodd sawl ymatebydd fanteision ymgysylltu cynnar gyda thirfeddianwyr a thenantiaid wrth ddatblygu cytundebau i wneud y dull gwirfoddol yn fwy effeithiol ac i sicrhau bod cynllun y cytunwyd arno'n cael ei weithredu'n effeithiol..

➢ Adnoddau

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer y drefn rheoli rhywogaethau. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys cyfeiriadau at:
- bryderon nad yw Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain yn derbyn adnoddau digonol i ddarparu cyngor ac asesiadau arbenigol ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn
- yr angen i nodi ffynonellau cyllid i helpu i fynd i'r afael â'r problemau
- adnoddau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant i helpu i weithredu'r Cod yn cynnwys: defnyddio'r ddeddfwriaeth a'r dewisiadau eraill posibl fel Hysbysiadau Gwarchod Cymunedol; defnyddio pwerau mynediad a chael mynediad i dir, methodolegau arolygu a goruchwylio; datblygu amodau rheoli a darpariaeth a chynnwys Cytundebau Rheoli Rhywogaethau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau

➢ Pa mor gyflym y gellir ymateb a ffactorau sy'n sbarduno gweithredu

Mynegodd un ymatebydd bryder fod y broses yn feichus ar gyfer sefyllfaoedd difrifol ac na fyddai'n gallu sicrhau 'ymateb cyflym' yn ymarferol. Holodd sawl ymatebydd beth oedd y ffactorau oedd yn sbarduno ymatebion brys a rhaglenni dileu.

➢ Sylwadau penodol eraill am rywogaethau

Mynegodd sawl ymatebydd bryder am faterion a oedd yn benodol i rywogaethau yn fwy na'r Cod ei hun. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r datganiad yn y Cod y gall ailgyflwyno rhywogaethau cynhenid fod yn gam cadwraeth pwysig iawn ac awgrymodd y dylai'r darpariaethau fod yn berthnasol i rywogaethau cynhenid sy'n cytrefu ardaloedd newydd hefyd. Mynegodd ymatebydd arall bryder am gynnwys yr afanc Ewrasiaidd fel '*rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma/nad ydynt yn bresennol fel arfer mwyach*'. Nid oedd un ymatebydd am wneud sylwadau am y Cod

ond roedd am godi ymwybyddiaeth o Alan Mis Bach (*Petasites fragrans*) gan ddatgan bod y planhigyn hwn yn lledaenu'n gyflym ar ochr ffyrdd yn y de ac yn lledaenu mewn coetiroedd, ble mae'n ffurfio haen drwchus ar y ddaear, gan ddifodi planhigion cynhenid.

- Sylwadau eraill

Roedd un ymatebydd o blaid defnyddio cynlluniau rheoli rhywogaethau i hyrwyddo arferion da ledled y diwydiant. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid darparu cyfeiriad e-bost Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer materion rhywogaethau estron goresgynnol gyda'r Cod i alluogi tirfeddianwyr neu reolwyr gwarchodfeydd, neu unrhyw randdeiliaid neu aelod arall o'r cyhoedd, i hysbysu awdurdodau am sefyllfa lle gallai fod angen mesurau rheoli rhywogaethau.


<u>Cwestiwn 2 –</u> A yw'r cod ymarfer arfaethedig yn glir i'w ddeall ac yn ymarferol i'w weithredu?

Ymatebodd 9 o'r 15 ymatebydd yn uniongyrchol i gwestiwn 2 gan gadarnhau bod y Cod Ymarfer drafft yn glir i'w ddeall ac yn ymarferol i'w weithredu. Ni ymatebodd 4 yn uniongyrchol i'r cwestiwn. Dywedodd 2 sefydliad nad oedd y Cod Ymarfer drafft yn glir i'w ddeall ac yn ymarferol i'w weithredu, er bod y ddau yn credu bod y Cod yn glir ar y cyfan ond bod angen mwy o eglurder ar rai pwyntiau. Dywedwyd bod angen mwy o eglurder yn y ddwy enghraifft isod.

*"We found the document to be comprehensive and helpful in most respects. However, we feel that some further work is required to provide guidance that is necessary to carry out Species Control Orders and Agreements effectively".* RSPB

*"Generally, we feel that the proposed Code is clear to understand. The examples of cases provided in the Welsh Government's draft Code will be very useful for actual implementation. The clarification on 'reintroduced animals' provides particularly useful guidance. We do though feel there is one area that may benefit from further clarification in the Code. Paragraphs 52 and 62 include a provision that a species control agreement or order may include details of payments by either the environmental authority or the owner. We are unclear about which party determines who should bear which costs and how much the costs should be."* Dŵr Cymru Welsh Water.

**Tabl 3 – dadansoddiad o ymatebion i Gwestiwn 2 (A yw'r cod ymarfer arfaethedig yn glir i'w ddeall ac yn ymarferol i'w weithredu?)**




<u>Cwestiwn 3 – Unrhyw sylwadau eraill</u>

Darparodd 2 ymatebydd sylwadau eraill mewn ymateb i gwestiwn 3. Mae'r sylwadau hyn wedi'u darparu o fewn y dadansoddiad o gwestiwn un.

## 4. Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i ymatebwyr am neilltuo amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Mae eich sylwadau wedi'u hystyried yn ofalus.

Rydym yn falch bod bron i hanner yr ymatebwyr wedi gwneud sylwadau yn croesawu naill ai bod y Cod Ymarfer yn cael ei ddatblygu, neu gynnwys y Cod Ymarfer drafft neu'r cyfle i roi sylwadau ar y Cod Ymarfer ac nad oedd unrhyw ymatebwyr wedi gwrthwynebu'r Cod Ymarfer.

Gan ddilyn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru'n cynllunio ar gyfer Cymru well drwy wneud pethau'r ffordd iawn i genedlaethau'r dyfodol ac wrth wneud hynny, gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae mynd i'r afael â Rhywogaethau Estron Goresgynnol yng Nghymru'n gam pwysig o ran cyflawni'r nodau hyn, nodau sy'n gofyn am gydweithio gan yr holl sefydliadau partner a chymunedau ledled Cymru.

Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain yn dilyn y dull hierarchaeth a nodwyd yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, sy'n pwysleisio atal fel cam cyntaf, yna canfod yn gynnar ac ymateb yn gyflym ac yn olaf, rheolaeth hirdymor. Mae'n bwysig gallu ymateb yn gyflym wrth ganfod bygythiad newydd; mae gallu cael mynediad i eiddo i reoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol sydd newydd

gyrraedd yn hanfodol. Mae trefniadau mynediad yn cael eu gwneud yn wirfoddol fel arfer gan fod y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn hapus i ganiatáu mynediad i'w tir at ddibenion o'r fath. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod modd cael mynediad bob amser, hyd yn oed pan nad oes neb yn gwybod pwy sy'n berchen yr eiddo. Mae'r Cod yn egluro sut y bydd y Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod Gweinidogion Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cael mynediad i dir a chael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol os oes angen. Y Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru yw un o'r offerynnau i helpu i gyflawni'n hamcanion o dan Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain.

Rydym wedi ystyried y sylwadau a oedd yn gofyn am fwy o eglurder neu wybodaeth ychwanegol ac wedi diwygio'r Cod i adlewyrchu hyn, yn arbennig adran 1 (Cyflwyniad), 2.4 (Hyd a lled mesurau), 3.3 (Pryd dylai awdurdod amgylcheddol gynnig ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau?) 3.4 (Beth mae'n rhaid i gytundeb rheoli rhywogaethau ei gynnwys), 4.1(Pryd gall awdurdod amgylcheddol wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau) a 6.1 (Cyfrifoldebau am gostau).

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod gwerth cydweithio â rhanddeiliaid Cymru, Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain a gweinyddiaethau datganoledig eraill i benderfynu ar gamau gweithredu blaenoriaeth er mwyn rheoli a dileu rhywogaethau estron goresgynnol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i weld ble gellir dyrannu adnoddau cyfredol ac i barhau i nodi arferion gorau.

**Y camau nesaf**:

Cyflwyno'r Cod Ymarfer diwygiedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Seilwaith 2015.

Cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar wefannau Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 5. Atodiad – Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad

Associated British Ports

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru

NFU Cymru

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Property Care Association

RSPB

RSPCA Cymru

Scottish Association for Country Sports

Seafish

Snowdonia Tree Services

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru

3 unigolyn